



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2003 Rhif 399 (Cy.56)

2003 No. 399 (W.56)

ANIFEILIAID, CYMRU

ANIMALS, WALES

IECHYD ANIFEILIAID

ANIMAL HEALTH

**Gorchymyn Symud Anifeiliaid
(Cyfyngiadau) (Cymru) 2003**

**The Movement of Animals
(Restrictions) (Wales) Order 2003**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

Mae'r Gorchymyn hwn, sy'n gymwys i Gymru, yn dirymu ac yn ailwneud darpariaethau Gorchymyn Clefydau Anifeiliaid (Canfod Clefyd) 1985 (O.S.1985/1765) a Gorchymyn Symud Anifeiliaid (Cyfyngiadau) 1990 (O.S. 1990/1251).

This Order, which applies in relation to Wales, revokes and remakes the provisions of the Disease of Animals (Ascertainment of Disease) Order 1985 (S.I.1985/1765) and the Movement of Animals (Restrictions) Order 1990 (S.I. 1990/1251).

Y prif newidiadau y mae'r Gorchymyn hwn yn deddfu ynglŷn â hwy yw -

The main changes enacted in this Order are -

- (a) estyn cymhwysiad y Gorchymyn i bresenoldeb clefyd ar gyfrwng cludo yn ogystal ag ar safle;
a
- (b) pwerau newydd i arolygwyr milfeddygol wahardd symud anifeiliaid yn ystod ymchwiliad i ddarganfod a oes clefyd ar y safle neu'r cyfrwng cludo (erthygl 8(1)).

- (a) an extension of the application of the Order to the presence of disease on means of transport as well as on premises; and
- (b) new powers for veterinary inspectors to prohibit the movement of animals while investigating whether disease is on the premises or means of transport (article 8(1)).

Nid oes Arfarniad Rheoliadol wedi'i baratoi ar gyfer y Gorchymyn hwn.

A Regulatory Appraisal has not been prepared for this Order.

2003 Rhif 399 (Cy.56)**2003 No. 399 (W.56)****ANIFEILIAID, CYMRU****ANIMALS, WALES****IECHYD ANIFEILIAID****ANIMAL HEALTH****Gorchymyn Symud Anifeiliaid
(Cyfyngiadau) (Cymru) 2003****The Movement of Animals
(Restrictions) (Wales) Order 2003**

Wedi'i wneud 26 Chwefror 2003
Yn dod i rym 28 Chwefror 2003

Made 26th February 2003
Coming into force 28th February 2003

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, a hwythau'n gweithredu ar y cyd wrth arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1, 8(1), 17(1), 23, 83(2), 87(2) a (5) ac 88(2) a (4) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(a) yn gwneud y Gorchymyn canlynol-

The National Assembly for Wales and the Secretary of State, acting jointly in exercise of the powers conferred on them by sections 1, 8(1), 17(1), 23, 83(2), 87(2) and (5) and 88(2) and (4) of the Animal Health Act 1981(a), make the following Order-

Teitl, cychwyn a chymhwyso

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Symud Anifeiliaid (Cyfyngiadau) (Cymru) 2003, daw i rym ar 28 Chwefror 2003 ac mae'n gynnwys i Gymru.

Title, commencement and application

1. This Order may be cited as the Movement of Animals (Restrictions) (Wales) Order 2002, comes into force on 28th February 2003 and applies in relation to Wales.

Estyn y diffiniad o "animals" a "disease"

2. At ddibenion Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981 o'i chymhwyso at y Gorchymyn hwn -

- (a) mae'r diffiniad o "*animals*" yn adran 87(1) o'r Ddeddf honno yn cael ei estyn i gynnwys unrhyw fath o famal ac eithrio dyn ac unrhyw fath o fwystfil pedairtroed nad yw'n famal; a
- (b) mae'r diffiniad o "*disease*" yn adran 88(1) o'r Ddeddf honno yn cael ei estyn i gynnwys unrhyw glefyd anifeiliaid.

Extension of definition of "animals" and "disease"

2. For the purposes of the Animal Health Act 1981 in its application to this Order-

- (a) the definition of "*animals*" in section 87(1) of that Act is extended so as to comprise any kind of mammal except man and any kind of four-footed beast which is not a mammal; and
- (b) the definition of "*disease*" in section 88(1) of that Act is extended so as to comprise any disease of animals.

(a) 1981 p.22. *Gweler* adran 86(1) i gael y diffiniadau o "the Ministers" a "the Minister". Trosglwyddwyd swyddogaethau a roddwyd o dan Ddeddf 1981 i "the Ministers" (fel y'u diffinnir yn adran 86 o'r Ddeddf honno) i'r graddau yr oeddent yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau ar y cyd "the Ministers" a oeddent yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol yr Alban mewn perthynas â Chymru i'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Amaethyddiaeth a Bwyd) 1999, O.S. 1999/3141. Cafodd pob un o swyddogaethau'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd eu trosglwyddo ymhellach wedyn i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Orchymyn y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth Pysgodfeydd a Bwyd (Diddymu) 2002 (O.S. 2002/794).

(a) 1981 c.22. *See* section 86(1) for the definitions of "the Ministers" and "the Minister". Functions conferred under the 1981 Act on "the Ministers" (as defined in section 86 of that Act) were transferred so far as exercisable by the Secretary of State for Wales in relation to Wales, to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I.1999/672). The joint functions of "the Ministers" exercisable by the Secretary of State for Scotland in relation to Wales were transferred to the Minister of Agriculture, Fisheries and Food by the Transfer of Functions (Agriculture and Food) Order 1999, S.I. 1999/3141. All functions of the Minister of Agriculture, Fisheries and Food were then further transferred to the Secretary of State by the Ministry of Agriculture, Fisheries and Food (Dissolution) Order 2002 (S.I. 2002/794).

Dehongli a chymhwys

3.-(1) Yn y Gorchymyn hwn -

mae "safle" ("*premises*") yn cynnwys tir ag adeiladau neu dir hebddynt; ac

mae i "prif ffordd" yr un ystyr â "*primary route*" yn Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig 1994(a).

(2) Pan ellid arfer pŵer a gynhwysir yn y Gorchymyn hwn o dan ddarpariaethau unrhyw Orchymyn arall, caniateir i'r pŵer o dan y Gorchymyn hwn gael ei arfer yn ychwanegol at y pŵer yn y Gorchymyn arall, neu yn ei le.

Cyfyngiadau ar symud anifeiliaid mewn achosion clefyd neu glefyd a amheuir

4.-(1) Os bydd arolygydd milfeddygol yn amau bod clefyd yn bodoli ar unrhyw safle neu gyfrwng cludo, caniateir iddo gyflwyno i'r person y mae'r safle neu'r cyfrwng cludo o dan ei ofal hysbysiad yn gwahardd symud unrhyw anifail, carcass neu unrhyw beth arall i'r safle neu'r cyfrwng cludo hwnnw neu oddi arno, ac eithrio o dan awdurdod trwydded a ddyroddwyd gan arolygydd milfeddygol.

(2) Caiff hysbysiad a ddyroddir o dan baragraff (1) gynnwys unrhyw gyfyngiadau neu ofynion eraill mewn perthynas â'r safle neu'r cyfrwng cludo neu mewn perthynas â phersonau, anifeiliaid, carcassau neu bethau eraill ar y safle neu'r cyfrwng cludo y mae'r arolygydd milfeddygol yn barnu eu bod yn angenrheidiol er mwyn atal clefyd rhag ymledu.

(3) Os bydd unrhyw berson yn mynd yn groes i hysbysiad a ddyroddir o dan yr erthygl hon i'r graddau y mae'n gymwys i anifail, caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol neu arolygydd i awdurdod lleol, gipio neu gadw'r anifail hwnnw a chaiff ei waredu yn y modd y mae'n barnu ei fod yn angenrheidiol i atal y clefyd rhag ymledu.

(4) Bydd unrhyw dreuliau a dynnir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol neu'r arolygydd wrth arfer y pwerau o dan baragraff (3) yn adferadwy fel dyled sifil gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yr Ysgrifennydd Gwladol neu'r awdurdod lleol oddi wrth y person sy'n methu â chydymffurfio.

Datgan ardal heintiedig

5.-(1) Os yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol yn amau bod clefyd yn bodoli mewn unrhyw ardal, caiff wneud Gorchymyn yn datgan bod yr ardal honno yn ardal heintiedig y mae darpariaethau erthygl 6 yn gymwys iddi.

(2) Rhaid i Orchymyn o dan baragraff (1) bennu -

(a) y clefyd y mae'r ardal heintiedig yn cael ei datgan mewn perthynas ag ef; a

(b) rhywogaethau yr anifeiliaid y mae darpariaethau

(a) O.S. 1994/1519.

Interpretation and application

3.-(1) In this Order-

"premises" includes land with or without buildings; and

"primary route" has the same meaning as in the Traffic Signs Regulations and General Directions 1994(a).

(2) Where a power contained in this Order could be exercised under the provisions of any other Order, the power under this Order may be exercised in addition to, or instead of, the power in the other Order.

Restrictions on movement of animals in cases of disease or suspected disease

4.-(1) If a veterinary inspector suspects that disease exists on any premises or means of transport, he or she may serve a notice on the person in charge of the premises or means of transport prohibiting the movement of any animal, carcass or other thing on to or from those premises or that means of transport, except under the authority of a licence issued by a veterinary inspector.

(2) A notice issued under paragraph (1) may contain such other restrictions or requirements with regard to the premises or means of transport or with regard to persons, animals, carcasses or other things on the premises or means of transport as the veterinary inspector considers necessary for the purpose of preventing the spread of disease.

(3) If any person contravenes a notice issued under this article in so far as it applies to an animal, the National Assembly for Wales, the Secretary of State or an inspector of a local authority, may seize or detain that animal and may dispose of it in such manner as he considers necessary to prevent the spread of disease.

(4) Any expenses incurred by the National Assembly for Wales, the Secretary of State or inspector in exercise of the powers under paragraph (3) are recoverable as a civil debt, by the National Assembly for Wales, the Secretary of State or local authority, from the person in default.

Declaration of infected area

5.-(1) If the National Assembly for Wales or the Secretary of State suspects that disease exists in any area they may make an Order declaring that area to be an infected area to which the provisions of article 6 apply.

(2) An Order under paragraph (1) must specify-

(a) the disease in respect of which the infected area is being declared; and

(b) the species of animal to which the provisions

(a) S.I. 1994/1519.

erthygl 6 i fod yn gymwys iddynt.

(3) Bernir bod unrhyw safle y mae rhan ohono y tu mewn a rhan ohono y tu allan i'r ardal heintiedig yn gyfan gwbl y tu mewn i'r ardal honno.

Cyfyngiadau ar symud anifeiliaid o fewn ardal heintiedig ac allan ohoni

6.-(1) Mae symud anifail, y mae'r erthygl hon yn gymwys iddo, gan unrhyw berson allan o ardal sydd wedi'i datgan yn ardal heintiedig o dan y Gorchymyn hwn yn cael ei wahardd, ac eithrio -

- (a) o dan awdurdod trwydded a ddyroddwyd gan arolygydd milfeddygol neu arolygydd sy'n gweithredu o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol; neu
- (b) os yw'r anifail yn teithio drwy'r ardal ar drên neu mewn cerbyd ar hyd y llwybr byrraf sydd ar gael gan ddefnyddio traffyrdd neu brif ffyrdd a hynny heb gael ei ddadlwytho.

(2) Mae symud anifail, y mae'r erthygl hon yn gymwys iddo, gan unrhyw berson oddi ar unrhyw safle mewn ardal sydd wedi'i datgan yn ardal heintiedig o dan y Gorchymyn hwn yn cael ei wahardd, ac eithrio o dan awdurdod trwydded a ddyroddwyd gan arolygydd milfeddygol neu arolygydd sy'n gweithredu o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol.

Ymchwiliad milfeddygol i fodolaeth clefyd

7.-(1) Os yw'r Ysgrifennydd Gwladol, am unrhyw reswm, yn credu ei bod yn angenrheidiol cadarnhau a oes clefyd yn bodoli ar unrhyw safle neu gyfrwng cludo, caiff arolygydd milfeddygol wneud unrhyw ymholiadau, archwiliadau a phroffion a chymryd unrhyw samplau y mae'n barnu eu bod yn angenrheidiol.

(2) Caiff arolygydd milfeddygol farcio at ddibenion adnabod unrhyw anifail, carcass neu beth arall y mae unrhyw un o'r pwerau o dan baragraff (1) wedi'u harfer mewn perthynas ag ef neu beri iddynt gael eu marcio felly.

(3) Gwaherddir difwyno, dileu neu waredu unrhyw farc a ddodwyd o dan baragraff (2).

(4) Rhaid i'r person y mae'r safle neu'r cyfrwng cludo o dan ei ofal neu unrhyw berson y mae'n ei gyflogi roi unrhyw gymorth rhesymol y mae ar yr arolygydd milfeddygol ei angen er mwyn ei gwneud yn haws i'r arolygydd arfer ei bwerau o dan baragraff (1) neu (2).

Cyfyngu ar symud anifeiliaid er mwyn canfod a oes clefyd yn bresennol

8. Pan fydd arolygydd milfeddygol wrthi'n gwneud ymchwiliad o dan erthygl 7 -

- (a) os yw'r anifeiliaid sy'n destun yr ymchwiliad ar

of article 6 are to apply.

(3) Any premises which are partly inside and partly outside the infected area are deemed to be wholly inside that area.

Restrictions on movement of animals within and out of an infected area

6.-(1) The movement by any person of an animal to which this article applies, out of an area declared to be an infected area under this Order, is prohibited except -

- (a) under the authority of a licence issued by a veterinary inspector or an inspector acting under the direction of a veterinary inspector; or
- (b) where the animal is transiting the area by train or in a vehicle by the shortest available route using motorways or primary routes without being unloaded.

(2) The movement by any person of an animal to which this article applies, from any premises in an area declared to be an infected area under this Order, is prohibited, except under the authority of a licence issued by a veterinary inspector or an inspector acting under the direction of a veterinary inspector.

Veterinary investigation as to the existence of disease

7.-(1) Where, for any reason, the National Assembly for Wales or Secretary of State considers it necessary to establish whether or not disease exists on any premises or means of transport, a veterinary inspector may carry out such inquiries, examinations and tests and take such samples as he or she considers necessary.

(2) A veterinary inspector may mark, or cause to be marked, for identification purposes any animal, carcass or other thing in relation to which any of the powers under paragraph (1) have been exercised.

(3) The defacing, obliteration or removal of any mark applied under paragraph (2) is prohibited.

(4) The person in charge of the premises or means of transport or any person in his or her employment must render such reasonable assistance to a veterinary inspector as he or she may require for the purpose of facilitating the exercise of his or her powers under paragraph (1) or (2).

Restriction on the movement of animals in order to ascertain the presence of disease

8. Where a veterinary inspector is carrying out an investigation under article 7, he or she may -

- (a) where the animals under investigation are on

y safle, caiff gyflwyno i'r person y mae'r safle o dan ei ofal, hysbysiad yn cyfyngu ar symud unrhyw anifail i'r safle hwnnw neu oddi arno; a

- (b) os yw'r anifeiliaid sy'n destun yr ymchwiliad mewn cyfrwng cludo, caiff gyflwyno i'r person y mae'r anifeiliaid neu'r cyfrwng cludo o dan ei ofal hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo symud yr anifeiliaid i unrhyw le a bennir yn yr hysbysiad.

Glanhau a diheintio

9. Caiff arolygydd milfeddygol gyflwyno i'r person y mae unrhyw safle neu gyfrwng cludo o dan ei ofal ac y mae hysbysiad o dan erthygl 4 wedi'i roi mewn perthynas ag ef, hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo lanhau neu ddiheintio'r safle neu'r cyfrwng cludo hwnnw yn unol â gofynion yr hysbysiad hwnnw.

Darpariaethau cyffredinol ynglŷn â hysbysiadau a thrwyddedau

10.-(1) Rhaid i bob trwydded a hysbysiad o dan y Gorchymyn hwn fod yn ysgrifenedig, gallant fod yn ddarostyngedig i amodau ac fe gaiff arolygydd milfeddygol eu hamrywio, eu hatal neu eu dirymu yn ysgrifenedig ar unrhyw bryd.

(2) Rhaid i drwydded sy'n cael ei dyroddi o dan y Gorchymyn hwn fynd gyda pha beth bynnag sy'n cael ei symud o dan ei hawdurdod ac os gofynnir iddo wneud hynny gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol neu gan arolygydd i'r awdurdod lleol neu gan gwnstabl, rhaid i unrhyw berson sy'n gweithredu o dan awdurdod trwydded o'r fath -

- (a) dangos y drwydded;
(b) caniatáu i gopi neu detholiad ohoni gael ei gymryd; a
(c) rhoi ei enw a'i gyfeiriad.

Pwerau cyffredinol

11.-(1) Os yw unrhyw berson yn symud unrhyw anifail neu beth yn groes i drwydded neu hysbysiad a ddyroddir o dan y Gorchymyn hwn, caiff yr Ysgrifennydd Gwladol, heb ragfarnu unrhyw achos am dramgwydd sy'n codi yn sgil y ffaith bod y person hwnnw wedi mynd mynd yn groes i'r drwydded neu'r hysbysiad, gyflwyno i'r person y mae'r anifail neu'r peth hwnnw o dan ei ofal hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo ei symud yn unol â gofynion yr hysbysiad.

(2) Os yw unrhyw berson y mae hysbysiad wedi'i gyflwyno iddo o dan erthygl 9 yn methu â chydymffurfio â gofynion yr hysbysiad hwnnw, caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol neu arolygydd i'r awdurdod lleol, heb ragfarnu unrhyw achos sy'n codi yn sgil methiant o'r

premises, serve a notice on the person in charge of the premises, restricting the movement of any animal on to or off those premises; and

- (b) where the animals under investigation are on a means of transport, serve a notice on the person in charge of the animals or the means of transport requiring him or her to move the animals to such place as may be specified in the notice.

Cleansing and disinfection

9. A veterinary inspector may serve a notice on the person in charge of any premises or means of transport in respect of which a notice under article 4 has been issued, requiring him or her to cleanse and disinfect those premises or that means of transport in accordance with the requirements of that notice.

General provisions as to notices and licences

10.-(1) All licences and notices under this Order must be in writing, may be subject to conditions and may be varied, suspended or revoked by a veterinary inspector in writing at any time.

(2) A licence issued under this Order must accompany whatever is being moved under its authority and any person acting under the authority of such a licence must, on demand made by the National Assembly for Wales, the Secretary of State or by an inspector of the local authority or by a constable-

- (a) produce the licence;
(b) allow a copy or extract to be taken; and
(c) furnish his or her name and address.

General powers

11.-(1) If any person moves any animal or thing in contravention of a licence or notice issued under this Order, the National Assembly for Wales, the Secretary of State or an inspector of the local authority may, without prejudice to any proceedings for an offence arising out of such contravention, serve a notice on the person in charge of that animal or thing, requiring him or her to move it in accordance with the requirements of the notice.

(2) If any person on whom a notice has been served under article 9 fails to comply with the requirements of that notice, the National Assembly for Wales, the Secretary of State or an inspector of the local authority may, without prejudice to any proceedings arising out of such default, carry out or cause to be carried out, the

fath, wneud y gwaith glanhau a diheintio sy'n ofynnol o dan yr hysbysiad, neu beri iddo gael ei wneud.

(3) Mae unrhyw dreuliau sy'n cael eu tynnu yn rhesymol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol neu arolygydd i'r awdurdod lleol wrth arfer y pwerau o dan baragraffau (1) neu (2) yn adferadwy fel dyled sifil gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol neu'r awdurdod lleol, oddi wrth y person sy'n methu â chydymffurfio.

Yr awdurdod lleol i orfodi'r Gorchymyn

12. Ac eithrio lle darperir yn bendant fel arall, rhaid i ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn gael eu gweithredu a'u gorfodi gan yr awdurdod lleol.

Dirymu

13. Mae'r Gorchymynion canlynol wedi'u dirymu i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru -

- (a) Gorchymyn Clefydau Anifeiliaid (Canfod Clefydau) 1985;(a) a
- (b) Gorchymyn Symud Anifeiliaid (Cyfyngiadau) 1990(b);

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru
25 Chwefor 2003

Llywydd

26 Chwefror 2003

Yr Is-Ysgrifennydd Seneddol
Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion

cleansing and disinfection required by the notice.

(3) Any expenses reasonably incurred by the National Assembly for Wales, the Secretary of State or inspector of the local authority in the exercise of the powers under paragraphs (1) or (2) are recoverable as a civil debt by the National Assembly for Wales, the Secretary of State or the local authority, from the person in default.

Local authority to enforce Order

12. The provisions of this Order must, except where otherwise expressly provided, be executed and enforced by the local authority.

Revocations

13. The following Orders are revoked in so far as they apply to Wales-

- (a) The Disease of Animals (Ascertainment of Disease) Order 1985;(a) and
- (b) The Movement of Animals (Restrictions) Order 1990(b);

Signed on behalf of the National Assembly for Wales
25th February 2003

Presiding Officer

26th February 2003

Parliamentary Under Secretary of State
Department for Environment, Food and Rural Affairs

(a) O.S. 1985/1765.

(b) O.S. 1990/760 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1991/1251.

(a) S.I. 1985/1765.

(b) S.I. 1990/760 as amended by S.I. 1991/1251.

OFFERYNNAU STATUDOL

2003 Rhif 399 (Cy.56)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

**Gorchymyn Symud Anifeiliaid
(Cyfyngiadau) (Cymru) 2003**

STATUTORY INSTRUMENTS

2003 No. 399 (W.56)

ANIMALS, WALES

ANIMAL HEALTH

**The Movement of Animals
(Restrictions) (Wales) Order 2003**

© Hawlfraint y Goron 2003

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

£2.00


W77/03/03

ON

© Crown copyright 2003

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090659-4



9 780110 906591